Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad o Wasanaethau Nyrsys Ardal

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 703A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gabrielle Smith, Katrina Febry ac Anne Beegan.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a strwythurau da ar gyfer nyrsys ardal gyda gweithdrefnau rheolaidd ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, er mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am brofiad cleifion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyfateb adnoddau yn well i'r galw er nad yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Ein prif ganfyddiadau | 5 |
| Ceir gweledigaeth glir ar gyfer nyrsys ardal, llinellau atebolrwydd clir a strwythurau da sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau. | 6 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw. | 7 |
| Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur craffter cleifion. | 8 |
| Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiad cleifion. | 9 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | |
| Dull archwilio | 12 |
| Cyflwyno'r prif ganfyddiadau | 14 |
| Allwedd i'r timau a gwybodaeth am PARIS | 37 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae nyrsys ardal yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu gofal yn y gymuned. Maent yn aelodau hanfodol o'r tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld â chleifion a gofalu amdanynt yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain. Mae nyrsys ardal hefyd yn gweithio gyda chleifion a'u teuluoedd er mwyn eu helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi'r angen iddynt gael eu derbyn neu eu haildderbyn i'r ysbyty.

**2.** Gall llwyth achosion cleifion nyrsys ardal gynnwys ystod oedran eang ac amrywiaeth sylweddol o broblemau iechyd, gan gynnwys y rhai ag afiechyd marwol. Y nifer fwyaf o gleifion yw'r henoed a'r bregus. Yn y dyfodol agos, mae'r galw am wasanaethau nyrsys ardal yn debygol o gynyddu o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, cyfnodau byrrach yn yr ysbyty a'r cam tuag at drin mwy o gleifion, sydd yn aml ag anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn hytrach nag yn yr ysbyty. Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd), disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu 26 y cant erbyn 2036 a disgwylir i'r boblogaeth oedrannus iawn h.y. y rheini sy'n 85 oed a throsodd gynyddu 126 y cant[1].

**3.** Mae Model Rheoli Cyflyrau Cronig Llywodraeth Cymru[2], a'i strategaeth gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned[3], yn dangos bod angen ailgydbwyso gwasanaethau ar sail system gyfan a darparu mwy o ofal yn y gymuned. Mae a wnelo gweledigaeth Llywodraeth Cymru â thîm amlddisgyblaethol integredig sy'n canolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd daearyddol i unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.

**4.** Nododd ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig[4] y canlynol:

- ychydig o fyrddau iechyd a oedd yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gapasiti neu allu eu gweithlu yn y gymuned, gan ei gwneud hi'n anodd targedu hyfforddiant a datblygiad er mwyn darparu mwy o ofal yn y gymuned;
- roedd rhai byrddau iechyd wedi aildrefnu gwasanaethau nyrsys ardal er mwyn darparu'r capasiti i 'symud' gofal i'r gymuned a chydgysylltu gofal;
- gallai gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf agored i niwed gael eu cydgysylltu'n well gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsys ardal, yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg ar gyfer y garfan hon o gleifion.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013), 2013

[2] Llywodraeth Cymru, Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu, 2007

[3] Llywodraeth Cymru, Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi, 2010

[4] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad, Mawrth 2014

5. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, rhaid sicrhau y caiff gofal yn y gymuned ei ddarparu gan weithlu sy'n meddu ar yr adnoddau a'r sgiliau priodol, sydd wedi'i gydgysylltu'n briodol ac a gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol. Gyda'r galw cynyddol ar wasanaethau a chyfyngiadau ariannol parhaus, mae angen i fyrddau iechyd ddeall sut y caiff y gwasanaeth nyrsys ardal ei ddefnyddio a sut mae'n cydweddu â datblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.

6. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad Cymru gyfan o wasanaethau nyrsys ardal yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a gasglwyd gan bob bwrdd iechyd. Nod yr adolygiad, a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2014 a mis Awst 2014, oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei adnoddau o ran y gwasanaeth nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?' Nodir ein dull archwilio yn Atodiad 1.

7. Adeg yr archwiliad, roedd gwasanaeth nyrsys ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys 226 o staff nyrsio (cyfwerth ag amser cyflawn). Roedd yr aelodau hyn o staff wedi'u trefnu'n 18 o dimau ar draws tair ardal i ofalu am 6,000 o gleifion. Mae'r gwasanaeth yn gyffredinol yn gweithredu rhwng 8am ac 8pm gyda'r gwasanaeth nos yn darparu gofal rhwng 8pm ac 8am. Ar yr un pryd â'r archwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynigion i gysoni timau nyrsys ardal â rhwydweithiau ardaloedd penodol. Rhoddwyd y cynigion hyn ar waith ar ôl cwblhau'r archwiliad ac o ganlyniad, gostyngwyd nifer y timau a nifer yr uwch aelodau o staff yn y gwasanaeth nyrsys ardal.

# Ein prif ganfyddiadau

8. Prif gasgliad ein hadolygiad yw bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a strwythurau da ar gyfer nyrsys ardal gyda gweithdrefnau rheolaidd ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, er mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am brofiad cleifion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyfateb adnoddau yn well i'r galw er nad yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol. Yn benodol:
   - Ceir gweledigaeth glir ar gyfer nyrsys ardal, llinellau atebolrwydd clir a strwythurau da sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau;
   - Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw;
   - Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur dibyniaeth cleifion;
   - Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiad cleifion.

9. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein prif ganfyddiadau. Nodir y dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r canfyddiadau hyn yn Atodiad 2 ar ffurf cyflwyniad.

## Rhan 1 - Ceir gweledigaeth glir ar gyfer nyrsys ardal, llinellau atebolrwydd clir a strwythurau da sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau

**Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal, ac aeth ati'n ddiweddar i gysoni ei dimau mewn ffordd a oedd yn ategu ei ddull o ddarparu gofal yn y gymuned ar sail ardaloedd a chymdogaethau**:

- Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn nodi dull y Bwrdd Iechyd o weithredu ar sail ardaloedd a chymdogaethau wrth ddarparu gofal yn y gymuned, ac mae nyrsys ardal yn elfen allweddol o'r broses hon.
- Mae'r cynllun tymor canolig integredig wedi'i lywio gan wybodaeth gadarn am anghenion y boblogaeth leol a'r galw tebygol yn y dyfodol a'r angen i reoli'r pwysau cynyddol ar wasanaethau nyrsys ardal.
- Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â staff y gwasanaeth nyrsys ardal a rhanddeiliaid eraill ynghylch ei gynigion i gysoni timau nyrsys ardal ag ardaloedd penodol a chwblhawyd y broses gysoni ddechrau'r hydref.

**Roedd gofynion y gweithlu ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ardal yn cael eu datblygu adeg yr archwiliad ond mae nifer cyffredinol yr uwch aelodau o staff yn debygol o leihau ar ôl cysoni'r timau ag ardaloedd penodol:**

- Mae manyleb gwasanaeth nyrsys ardal y Bwrdd Iechyd, a gyhoeddwyd yn 2010, yn nodi'n glir rôl y gwasanaeth nyrsys ardal a'r rhan y mae'n ei chwarae o fewn gwasanaethau cymunedol a nyrsio ehangach.
- Darparodd adolygiad o arferion gweithredol a strwythurau timau nyrsys ardal yn 2013 sail ar gyfer cynigion y Bwrdd Iechyd i gysoni timau nyrsys ardal ag ardaloedd penodol.
- Adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Integredig (PCIC) wrthi'n datblygu cynllun gweithlu manwl i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig.
- Bydd cynigion i gysoni timau nyrsys ag ardaloedd penodol, yn gostwng nifer yr uwch aelodau o staff, wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio cyfuno sgiliau arwain a rheoli uwch nyrsys ardal.

**Ceir strwythurau proffesiynol a rheoli a llinellau atebolrwydd clir i helpu i ddarparu'r gwasanaeth nyrsys ardal ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda:**

- Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer gwasanaethau nyrsys ardal yn gyson ar draws ardaloedd gyda nyrsys sy'n arwain ardaloedd penodol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu sut y caiff gwasanaethau eu darparu.
- Mae arweinydd proffesiynol ar ran y nyrsys ardal yn cynghori Bwrdd Clinigol PCIC.
- Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer darparu gwasanaethau nyrsys ardal ac ar gyfer monitro'r broses o'u darparu, gan gynnwys ansawdd a diogelwch, ar lefel ardal ac ar lefel Bwrdd Clinigol PCIC ac wedyn i'r tîm Gweithredol.

## Rhan 2 - Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredol i reoli'r galw am wasanaethau nyrsys ardal:**

- Mae meini prawf clir ar waith ar gyfer atgyfeirio a gwahardd.
- Mae'r ganolfan gyfathrebu yn ymdrin â phob achos a gaiff ei atgyfeirio i'r gwasanaeth nyrsys ardal, sy'n golygu y caiff galw amhriodol ei asesu'n gyflym ac y caiff cymorth wedi'i dargedu ei roi i'r rheini a gaiff eu hatgyfeirio'n amhriodol.
- Mae eglurder ynghylch pa wybodaeth atgyfeirio sydd ei hangen, gan gynnwys cael gwybodaeth am y risgiau o ran unigolion yn gweithio ar eu pen eu hunain neu ymweliadau â chartrefi, ond ni chaiff y wybodaeth hon bob amser ei chofnodi ar y system electronig.
- Caiff nifer yr atgyfeiriadau ei monitro'n rheolaidd fel rhan o'r dangosfwrdd ardal.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ad-drefnu'r gwasanaeth nyrsys ardal er mwyn sicrhau bod ganddo'r nifer briodol o staff a sgiliau i ateb y galw:**

- Mae nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i gleifion cofrestredig yn cymharu'n nodweddiadol â chyfartaledd Cymru.
- Bu cynnydd bach yn y gweithlu nyrsys ardal ers 2009.
- Mae'r cymysgedd graddau wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf gyda gostyngiadau mawr o ran nifer yr uwch aelodau o staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal (Band 7), sy'n adlewyrchu gostyngiadau o ran nifer y timau nyrsys ardal dros y cyfnod hwnnw. Yn y cyfamser, mae nifer y nyrsys staff cymunedol yn cynyddu
- Adeg ein harchwiliad, roedd amrywiadau sylweddol o ran cymysgedd y graddau ar draws timau o fewn ardaloedd a rhwng ardaloedd.
- Dengys gwariant ar gyflog ar gyfer staff parhaol sy'n rhan o'r gwasanaeth nyrsys ardal gynnydd bach yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Cynyddodd costau ar gyfer staff dros dro, sef cyfran fach iawn o'r bil cyflogau cyffredinol.
- Adeg yr archwiliad, roedd y gyfradd swyddi gwag ar gyfer staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn uwch na chyfartaledd Cymru.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol i ateb y galw ond mae angen gwella cydymffurfiaeth ag anghenion hyfforddiant statudol a gorfodol:**

- Caiff anghenion hyfforddiant a diffygion o ran sgiliau eu nodi bob blwyddyn.
- Mae'r rhan fwyaf o staff wedi cael arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu o fewn y 12 mis diwethaf a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro'n rheolaidd ar lefel ardal ac ar lefel y Bwrdd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i sicrhau bod staff y gwasanaeth nyrsys ardal wedi'u hyfforddi'n briodol i weithio yn y gymuned.
- Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael iawn ac yn cyflwyno risgiau corfforaethol a gweithredol.
- Gall staff ddefnyddio amser gwarchodedig â thâl at ddibenion datblygiad proffesiynol parhaus ond nododd rhai timau nad ydynt 'erioed' wedi cael cyfle i wneud hynny.
- Yn nodweddiadol, ar sail tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r archwiliad, mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.

**Rhan 2 - Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw**

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol i ateb y galw ond mae angen gwella cydymffurfiaeth ag anghenion hyfforddiant statudol a gorfodol:**

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol i staff nyrsio ond ni chaiff ei hymarfer yn ffurfiol. Yn lle hynny, o ganlyniad i gyflwyno sesiwn trosglwyddo dyddiol rhwng timau a sesiynau arsylwi uniongyrchol ar gyfer ymarfer clinigol, ceir cyfleoedd i rannu ymarfer clinigol a myfyrio arno, yn ogystal â chyfleoedd i drafod anghenion cleifion unigol.

**Rhan 3 - Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur dibyniaeth cleifion**

**Ceir amrywiad annisgwyl yn y ffordd y mae timau nyrsys ardal yn treulio eu hamser ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynyddu'r amser a gaiff ei dreulio gyda chleifion:**

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynyddu'r amser a gaiff ei dreulio gyda chleifion ac mae cyfran yr amser a dreulir gan staff ar ofal cleifion uniongyrchol fymryn yn is na chyfartaledd Cymru.
- Ceir gwahaniaethau mawr yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol ac yn ymgymryd â gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion rhwng timau.
- Mae amser teithio mewn perthynas ag ymweliadau â chleifion yn cyfrif am lai nag un rhan o bump o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chleifion gydag amrywiadau bach yn yr amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chlaf.
- Mae cyfran yr amser a dreulir gan staff gyda chleifion yn amrywio rhwng graddau ac o fewn graddau, er yr ymddengys fod sail resymegol glir dros yr amrywiad hwn.
- Mae'r cymysgedd o ran graddau yn gyffredinol gyson drwy gydol yr wythnos.

**Nid yw'r staff wedi'u dosbarthu'n gyson ar draws llwythi achosion ac nid yw'r adnoddau o reidrwydd yn diwallu anghenion y llwyth achos:**

- Adeg yr archwiliad, mae llwythi gwaith, wedi'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio'n ddeublyg rhwng timau nyrsys ardal. Nid yw'n glir p'un a yw'r amrywiad yn ymwneud â dibyniaeth cleifion ond gall newidiadau diweddar i strwythurau timau leihau'r amrywiad hwn.
- Cynhaliodd staff y gwasanaeth nyrsys ardal bron i 7,000 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad gyda rhywfaint o amrywiad rhwng timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin.
- Mae rhai aelodau o staff yn gweithio mwy na'r oriau a nodir yn eu contract.

**Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff llwythi achosion eu rheoli'n effeithiol ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda:**

- Yn gyffredinol, ni chaiff llwythi achosion byth eu cau ond mae gweithdrefnau uwchgyfeirio clir ar waith er mwyn rheoli pwysau cynyddol ar gapasiti.
- Gallai nifer yr ymweliadau â chleifion mewn unrhyw ddiwrnod penodol fod yn ddiderfyn.

## Rhan 3 - Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur dibyniaeth cleifion

**Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff llwythi achosion eu rheoli'n effeithiol ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda:**

- Mae rhai timau yn gofalu am gleifion sydd wedi'u cofrestru â phractisau meddygon teulu y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ond mae'r gwasanaeth nyrsys ardal wedi gweithio gyda gwasanaethau cyfagos i gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am ofalu am y cleifion hyn gyda'r risgiau gweddilliol yn cael eu cofnodi ar gofrestrau risg ardal.
- Nid oes adnodd dibyniaeth cleifion safonol yn cael ei ddefnyddio ac mae'r Bwrdd Iechyd yn aros i adnodd cenedlaethol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gael ei gyflwyno.
- Caiff achosion a gaiff eu rhyddhau o'r llwyth achosion eu monitro'n rheolaidd fel rhan o'r dangosfwrdd ardal ond mae nifer fach o gleifion yn parhau'n rhan o'r llwyth achosion am gyfnod hir gyda rhai cleifion yn cael ymweliadau afreolaidd.
- Mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn anelu at ddarparu gofal i gleifion sy'n gaeth i'w cartref ond mae'n anodd penderfynu faint o gleifion sy'n wirioneddol gaeth i'w cartref.

## Rhan 4 - Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiad cleifion

**Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau ar waith i fonitro performiad y gwasanaeth nyrsys ardal a chyflwyno adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiadau cleifion:**

- Caerdydd a'r Fro yw'r unig fwrdd iechyd sy'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ei wasanaeth nyrsys ardal gyda nifer o ddangosyddion perfformiad wedi'u cynnwys yn y dangosfwrdd ardal misol.
- Mae'r system cofnodi gofal electronig yn darparu gwybodaeth i ategu gwaith cynllunio a monitro a chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n rheolaidd.
- Mae'r systemau ar gyfer cofnodi profiad cleifion neu ganlyniadau cleifion yn ad hoc ar hyn o bryd gan ddibynnu ar fonitro cwynion a digwyddiadau ond mae timau yn gweithio i ddatblygu ffordd fwy cyson o gofnodi adborth. Yn y dyfodol, bydd canfyddiadau archwiliad 'Hanfodion Gofal', a gynhelir yn fuan ar gyfer pob gwasanaeth nyrsys ardal ledled Cymru, yn darparu rhywfaint o wybodaeth am brofiad cleifion.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu gwasanaethau nyrsys ardal ledled Cymru ac mae'n ailfywiogi'r fforwm proffesiynol gan fod y newidiadau diweddar i strwythurau timau wedi'u cwblhau bellach:**

- Mae uwch aelodau o staff nyrsio yn cyfrannu'n rheolaidd at fforymau Cymru gyfan sy'n ymwneud â'r gwasanaeth nyrsys ardal.
- Mae'r nyrsys arweiniol wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r fforwm proffesiynol yn dilyn y newidiadau diweddar i strwythurau timau er mwyn sicrhau bod systemau priodol ar waith i rannu materion proffesiynol ac arfer da.

# Argymhellion

| **Strategaeth a chynllunio** | |
|---|---|
| A1 | Gan fod y newidiadau i strwythurau timau wedi'u cwblhau bellach, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• fanteisio ar y cyfle i adolygu ac ailwampio manyleb y gwasanaeth i adlewyrchu'r newidiadau; a<br>• chodi ymwybyddiaeth darpar atgyfeirwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill o rôl y gwasanaethau nyrsys ardal wrth ddarparu gofal i gleifion sy'n 'gaeth i'w cartref' ac y gellir trin cleifion mewn lleoliadau gofal eraill, lle y bo'n briodol. |
| **Defnydd effeithiol** | |
| A2 | Roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd roedd staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn treulio eu hamser. Er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio'n effeithiol, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• geisio deall pam bod rhai graddau o staff yn treulio llai o amser ar ofal cleifion uniongyrchol;<br>• defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn fel llinell sylfaen y gellir monitro cynnydd tuag at gynyddu'r amser a dreulir gyda chleifion yn ei erbyn;<br>• asesu p'un a yw'r broses o ailgysoni timau wedi arwain at y newidiadau bwriadedig mewn perthynas ag atgyfnerthu sgiliau arwain a rheoli. |

**Cyfateb adnoddau i'r llwyth achosion**

A3 Adeg yr archwiliad, roedd y llwyth gwaith yn amrywio rhwng timau. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- cymharu llwythi gwaith timau er mwyn gweld p'un a yw lefel yr amrywiadau wedi lleihau gan fod y newidiadau i strwythurau timau wedi'u cwblhau bellach; **ac**
- ystyried defnyddio adnodd dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael i gynnal adolygiad gwrthrychol o b'un a yw niferoedd y gweithlu a'u sgiliau yn diwallu anghenion y llwyth achosion.

**Monitro a gwella gwasanaethau**

A4 Ceir eglurder ynghylch y wybodaeth y dylid ei chofnodi ar y cofnod gofal electronig pan gaiff cleifion eu hatgyfeirio; fodd bynnag, ni chaiff peth gwybodaeth ei chofnodi fel mater o drefn. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- ystyried ei gwneud hi'n orfodol cofnodi set ddata fach, er enghraifft, y risgiau sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, p'un a yw'r claf yn byw ar ei ben ei hun neu'n gaeth i'r cartref, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff fel ei gilydd a sicrhau y caiff amser ei ddefnyddio'n effeithlon.

A5 Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- gweithio gyda nyrsys sy'n arwain mewn ardaloedd penodol ac arweinwyr tîm er mwyn mynd ati'n gyson i nodi a chofnodi'r hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ei angen ar bob aelod o staff a pha mor aml y mae ei angen er mwyn sicrhau bod cyfraddau cydymffurfio yn gywir;
- codi ymwybyddiaeth ymhlith staff yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol o'u cyfrifoldeb o ran sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol;
- asesu p'un a yw digwyddiadau hyfforddi statudol a gorfodol undydd wedi'u hwyluso yn gwella cydymffurfiaeth;
- ceisio deall y ffactorau sy'n atal cydymffurfiaeth a rhoi atebion priodol ar waith i'w goresgyn;
- ystyried p'un a ddylid defnyddio cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol i lywio'r dangosfwrdd ardal.

A6 Gall y Bwrdd Iechyd fonitro perfformiad y gwasanaeth nyrsys ardal ond prin yw'r wybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- cytuno ar ddull gweithredu cyson ar gyfer cael adborth gan gleifion a'i roi ar waith;
- gweithio i gytuno ar fesurau ar gyfer canlyniadau cleifion; ac
- ystyried sut y gellir defnyddio profiad cleifion neu ganlyniadau cleifion i lywio'r dangosfwrdd ardal.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Gofynnodd yr archwiliad y cwestiwn canlynol: A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei wasanaeth nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned? Yn arbennig, gwnaethom ystyried y canlynol:

- a oes dull gweithredu strategol clir ar gyfer darparu gwasanaeth nyrsys ardal;
- a oes digon o adnoddau nyrsys ardal i ateb y galw;
- a gaiff adnoddau nyrsys ardal eu defnyddio'n effeithiol;
- a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau nyrsys ardal.


Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio gennym rhwng mis Mawrth a mis Awst 2014 er mwyn ateb y cwestiynau hyn. Cynhaliwyd pob gweithgaredd archwilio mewn wythnosau olynol er mwyn lleihau effaith un gweithgaredd ar y llall.

| Gweithgareddau archwilio | Diben |
|---|---|
| **1. Adolygu llwyth achosion** | Darparodd y Bwrdd Iechyd ddata o system PARIS i'n galluogi i lunio proffil o lwythi achosion nyrsys ardal mewn perthynas ag amlder ymweliadau, hyd y cyfnod ar y llwyth achos, hyd yr ymweliad, lleoliad gofal, mathau o ofal a ddarparwyd a ph'un a oedd cleifion yn derbyn gofal gan weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol eraill. Ar 13$^{eg}$ Ebrill 2014, roedd 6,023 o gleifion wedi dod i gysylltiad uniongyrchol (wyneb-yn-wyneb) neu anuniongyrchol (ffôn) gyda thîm nyrsys ardal yn ystod y chwe mis cyn y dyddiad hwn ac roedd ymweliad arall yn yr arfaeth ar eu cyfer, hynny yw, roedd system PARIS yn nodi bod y cofnod gofal ar agor o hyd. |
| **2. Adolygu'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth** | Darparodd y Bwrdd Iechyd ddata o PARIS er mwyn i ni archwilio nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaeth nyrsys ardal rhwng Ebrill 7$^{fed}$ a 13$^{eg}$ a natur yr atgyfeiriadau hynny. Cafodd y gwasanaeth nyrsys ardal 334 o atgyfeiriadau yn ystod yr wythnos dan sylw. |
| **3. Arolwg tîm** | Gwnaethom ofyn i arweinwyr tîm unigol gwblhau holiadur byr ynglŷn â'u priod dimau. Ceisiodd yr holiadur wybodaeth am niferoedd staff, y mathau o weithgareddau gofal yr hyfforddwyd staff i'w cyflawni a ph'un a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, nifer y staff â chymwysterau ymarferwyr arbenigol, cyfranogiad mewn goruchwyliaeth glinigol, ac amser wedi'i ddiogelu ar gyfer hyfforddiant.<br>Cawsom 18 o arolygon wedi'u cwblhau gan dimau nyrsys ardal. |

| Gweithgareddau archwilio | Diben |
|---|---|
| **4. Dyddiadur llwyth gwaith unigol** | Gwnaethom ofyn i bob aelod o staff nyrsio a oedd yn gweithio fel rhan o dîm nyrsys ardal gadw dyddiadur gweithgarwch saith diwrnod rhwng 6 Ebrill a 12 Ebrill 2014. Casglodd y dyddiadur wybodaeth am yr amser yr oedd aelodau unigol o staff nyrsio yn ei dreulio ar weithgareddau gofal uniongyrchol, gweithgareddau gofal anuniongyrchol a gweithgareddau gofal nad oeddent yn gysylltiedig â chleifion, nifer y cysylltiadau â chleifion a lleoliadau'r cysylltiadau hynny. Ni ofynnodd y dyddiadur i'r staff gofnodi gwybodaeth sensitif.<br>Cawsom 234 o ddyddiaduron wedi'u cwblhau ar gyfer yr wythnos dan sylw gan aelodau o staff, gan gynnwys staff banc, a oedd yn gweithio ar draws 17 o dimau. Collwyd dyddiaduron un tîm tra'n cael eu trosglwyddo o fewn y Bwrdd Iechyd. Cofnododd y dyddiaduron wybodaeth am 96 y cant o'r staff a oedd ar yr amserlen i weithio yn ystod yr wythnos dan sylw.<br>Nodir diffiniadau o'r amrywiol weithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod yr ymarfer dyddiaduron yn Atodiad 2. |
| **5. Arolwg bwrdd iechyd** | Gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd gwblhau holiadur byr, a oedd yn ceisio gwybodaeth am y model ar gyfer darparu gwasanaethau nyrsys ardal, tueddiadau o ran niferoedd y gweithlu a gwariant ar wasanaethau, gwybodaeth am gydymffurfiaeth â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad a hyfforddiant statudol a gorfodol a threfniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys agweddau ar ansawdd a diogelwch. |

# Atodiad 2

## Cyflwyno'r prif ganfyddiadau






## Cwestiwn archwilio

**A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio ei wasanaeth nyrsys ardal yn effeithiol fel rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?**

- A oes strategaeth glir ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ardal?
- A oes digon o adnoddau nyrsys ardal i ateb y galw?
- A gaiff staff y gwasanaeth nyrsys ardal eu defnyddio'n effeithiol?
- A oes trefniadau effeithiol ar gyfer monitro a gwella'r gwasanaeth nyrsys ardal?

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 3

## Casgliad cyffredinol

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a strwythurau da ar gyfer nyrsys ardal gyda gweithdrefnau rheolaidd ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad, er mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am brofiad cleifion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyfateb adnoddau yn well i'r galw er nad yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 4

## Is-gasgliadau

1. **Strategaeth a chynllunio:** Ceir gweledigaeth glir ar gyfer nyrsys ardal, llinellau atebolrwydd clir a strwythurau da sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau.

2. **Adnoddau i ateb y galw:** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw.

3. **Defnydd effeithiol:** Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur dibyniaeth cleifion.

4. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiad cleifion.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 5

## Strategaeth a chynllunio

Ceir gweledigaeth glir ar gyfer nyrsys ardal, llinellau atebolrwydd clir a strwythurau da sy'n ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 6

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Strategaeth

**a. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer ei wasansaeth nyrsys ardal, ac aeth ati'n ddiweddar i gysoni ei dimau mewn ffordd a oedd yn ategu ei ddull o ddarparu gofal yn y gymuned ar sail ardaloedd a chymdogaethau.**

- Mae'r cynllun tymor canolig integredig yn nodi dull y Bwrdd Iechyd o weithredu ar sail ardaloedd a chymdogaethau wrth ddarparu gofal yn y gymuned, ac mae nyrsys ardal yn elfen allweddol o'r broses hon.
- Mae'r cynllun tymor canolig integredig wedi'i lywio gan wybodaeth gadarn am anghenion y boblogaeth leol a'r galw tebygol yn y dyfodol a'r angen i reoli'r pwysau cynyddol ar wasanaethau nyrsys ardal.
- Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â staff y gwasanaeth nyrsys ardal a rhanddeiliaid eraill ynghylch ei gynigion i gysoni timau nyrsys ardal ag ardaloedd penodol a chwblhawyd y broses gysoni ddechrau'r hydref.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 7

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Cynlluniau gweithredol

**b. Roedd gofynion y gweithlu ar gyfer y gwasanaeth nyrsys ardal yn cael eu datblygu ar adeg yr archwiliad ond mae nifer gyffredinol yr arweinwyr tîm yn debygol o leihau yn dilyn cysoni'r timau â chymdogaethau.**

- Mae manyleb gwasanaeth nyrsys ardal y Bwrdd Iechyd, a gyhoeddwyd yn 2010, yn nodi'n glir rôl y gwasanaeth nyrsys ardal a'r rhan y mae'n ei chwarae o fewn y gwasanaethau cymunedol a nyrsio ehangach.
- Mae adolygiad o arferion gweithredol a strwythurau tîm nyrsys ardal yn 2013 wedi ategu cynigion y Bwrdd Iechyd ar gyfer cysoni timau nyrsys ardal ag ardaloedd penodol.
- Adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Integredig (PCIC) wrthi'n datblygu cynllun gweithlu manwl i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun tymor canolig integredig..
- Bydd cynigion i gysoni timau nyrsys ag ardaloedd penodol yn gostwng nifer yr uwch aelodau o staff, wrth i'r Bwrdd Iechyd geisio cyfuno sgiliau arwain a rheoli uwch nyrsys ardal.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 8

## Llinellau atebolrwydd

**c. Ceir strwythurau proffesiynol a rheoli a llinellau atebolrwydd clir i helpu i ddarparu'r gwasanaeth nyrsys ardal ac mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda.**

- Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer gwasanaethau nyrsys ardal yn gyson ar draws ardaloedd gyda nyrsys sy'n arwain ardaloedd penodol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu sut y caiff gwasanaethau eu darparu.
- Mae arweinydd proffesiynol ar ran y nyrsys ardal yn cynghori Bwrdd Clinigol PCIC.
- Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer darparu gwasanaethau nyrsys ardal ac ar gyfer monitro'r broses o'u darparu, gan gynnwys ansawdd a diogelwch, ar lefel ardal ac ar lefel Bwrdd Clinigol PCIC ac wedyn i'r tîm Gweithredol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 9

## Adnoddau i ateb y galw

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae'n gweithio er mwyn cysoni adnoddau i gyfateb i'r galw.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 10

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli'r galw

**a. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredol i reoli'r galw am wasanaethau nyrsys ardal.**

- Mae meini prawf clir ar waith ar gyfer atgyfeirio a gwahardd.
- Mae'r ganolfan gyfathrebu yn ymdrin â phob achos a gaiff ei atgyfeirio i'r gwasanaeth nyrsys ardal, sy'n golygu y caiff galw amhriodol ei asesu'n gyflym ac y caiff cymorth wedi'i dargedu ei roi i'r rheini a gaiff eu hatgyfeirio'n amhriodol.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio i gyflwyno model brysbennu clinigol i'r ganolfan gyfathrebu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol y tro cyntaf ac er mwyn lleihau achosion o ddyblygu ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae eglurder ynghylch pa wybodaeth atgyfeirio sydd ei hangen, gan gynnwys cael gwybodaeth am y risgiau o ran unigolion yn gweithio ar eu pen eu hunain neu ymweliadau â chartrefi, ond ni chaiff y wybodaeth hon bob amser ei chofnodi ar y system electronig.
- Caiff nifer yr atgyfeiriadau ei monitro'n rheolaidd fel rhan o'r dangosfwrdd ardal.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 11

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli'r galw

**Atgyfeiriadau at y gwasanaeth nyrsys ardal rhwng 7 ac 13 Ebrill 2014 (i)**

Adeg ein harchwiliad, gwnaed 334 o atgyfeiriadau at y gwasanaeth nyrsys ardal. Roedd y nifer a dderbyniwyd yn amrywio o 3 i 28 fesul tîm, gyda chyfartaledd o 20 o atgyfeiriadau fesul tîm.

- Mae'r galw am wasanaethau nyrsys ardal, a gaiff ei fesur gan nifer yr atgyfeiriadau, yn digwydd yn ystod yr wythnos yn bennaf.
  - Derbyniwyd fwy neu lai pob atgyfeiriad yn ystod yr wythnos, gyda nifer fach iawn (3.5%) yn cael eu derbyn ar benwythnosau; ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau y tu allan i'r oriau craidd.
- Caiff y rhan fwyaf o'r galw am ofal nyrsys ardal ei lywio gan atgyfeiriadau gan bractisau meddygon teulu.
  - Gwnaed 44% o atgyfeiriadau gan feddygon teulu o gymharu â 32% gan wardiau ysbyty, ac 15% gan gleifion neu eu gofalwyr.
- Roedd dwy ran o dair (66%) o atgyfeiriadau ar gyfer cleifion a oedd, yn ôl pob tebyg, yn hysbys i'r gwasanaeth nyrsys ardal.
- Categoreiddiwyd tair rhan o bump (61%) o atgyfeiriadau fel atgyfeiriadau gwellhaol. Roedd cyfrannau bach o atgyfeiriadau ar gyfer gofal diwedd oes neu liniarol (4%) a gofal anymataliaeth (8%), sy'n debyg i'r canfyddiadau o fewn byrddau iechyd eraill.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 12

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli'r galw

**Atgyfeiriadau at y gwasanaeth nyrsys ardal rhwng 7 a 13 Ebrill 2014 (ii)**


- Roedd tair rhan o bump (62%) o gleifion yn derbyn gofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf.
  - Trefnwyd ymweliad untro o ganlyniad i un rhan o bump (21%) o atgyfeiriadau a gafwyd gan dimau Caerdydd a'r Fro ac ar gyfer cyfran fach (16%) o achosion, nid oedd y penderfyniad ynghylch p'un a oedd angen gofal parhaus wedi'i wneud eto.
- Mae manyleb gwasanaeth y Bwrdd Iechyd yn nodi'r wybodaeth y dylid ei chofnodi adeg atgyfeirio ond ar hyn o bryd, ni chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi fel mater o drefn ar y systemelectronig.
- Mae'r fanyleb gwasanaeth yn cynnwys canllawiau ar gyfer blaenoriaethu atgyfeiriadau a pha mor gyflym y dylid gweld cleifion. Dengys ein dadansoddiad fod chwarter (25%) y cleifion yn cael eu 'gweld' ar yr un diwrnod ag y derbyniwyd yr atgyfeiriad ac roedd traean (32%) yn cael eu gweld drannoeth.

**Adolygiad o Nyrsys Ardal** Sleid 13

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli'r galw

Caiff y rhan fwyaf o atgyfeiriadau eu categoreiddio fel 'gwellhaol', megis rheoli clwyfau.[1]




[1] Mae PARIS, y system cofnodi gofal electronig, yn rhoi dewis o chwe chategori gofal i ddefnyddwyr i ddisgrifio anghenion gofal claf yn y ffordd orau. Yn ogystal â'r pump categori a gyflwynir yn y siart uchod, ceir chweched categori ar gyfer 'adsefydlu'/gofal canolraddol. Adeg yr archwiliad, nid oedd unrhyw atgyfeiriad wedi'i gategoreiddio fel 'adsefydlu'/gofal canolraddol.

**Adolygiad o Nyrsys Ardal** Sleid 14

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael

**b. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ad-drefnu'r gwasanaeth nyrsys ardal er mwyn sicrhau bod ganddo'r nifer briodol o staff a sgiliau i ateb y galw.**

- Mae nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i gleifion cofrestredig yn cymharu'n nodweddiadol â chyfartaledd Cymru.
  - Ceir 2.7 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal fesul 1,000 o gleifion cofrestredig 65 oed a throsodd yng Nghaerdydd a'r Fro o gymharu â 2.8 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn yng Nghymru.
  - Mae timau nyrsys ardal y Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu gofal nyrsio i'r cleifion hynny ag anghenion gofal iechyd parhaus sy'n cael gofal gartref.
- Bu cynnydd bach (4%) yn y gweithlu nyrsys ardal ers 2009.
- Mae'r cymysgedd graddau wedi newid yn ystod y pum mlynedd diwethaf gyda gostyngiadau mawr o ran nifer yr uwch aelodau o staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal (B a 7), sy'n adlewyrchu gostyngiadau o ran nifer y timau nyrsys ardal dros y cyfnod hwnnw. Yn y cyfamser, mae nifer y nyrsys staff cymunedol yn cynyddu.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 15

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael

**b. Parhad...**


- Adeg ein harchwiliad, roedd amrywiadau sylweddol o ran cymysgedd y graddau ar draws timau o fewn ardaloedd a rhwng ardaloedd.
  - Mae cyfran (63%) y nyrsys staff cymunedol yn gymharol uchel yng Nghaerdydd a'r Fro o gymharu â byrddau iechyd eraill (58%) ond mae cyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd (14%) yn is na chyfartaledd Cymru (17%).
  - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi o ganlyniad i ailgysoni timau ag ardaloedd penodol fod cyfran aelodau staff Band 6 a 7 yn gymharol debyg ar draws timau ond bod cyfran aelodau staff Band 5 yn fwy amrywiol gan adlewyrchu demograffi lleol.
- Dengys gwariant ar gyflog ar gyfer staff parhaol sy'n rhan o'r gwasanaeth nyrsys ardal gynnydd bach (3%) yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Cynyddodd costau ar gyfer staff dros dro, sef cyfran fach iawn o'r bil cyflogau cyffredinol.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod costau cyflog ar gyfer staff dros dro wedi cynyddu er mwyn ymateb i swyddi gwag, achosion o absenoldeb oherwydd salwch a llwyth gwaith cynyddol.
- Adeg yr archwiliad, roedd y gyfradd swyddi gwag ar gyfer staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn uwch na chyfartaledd Cymru.
  - Cyfradd swyddi gwag Caerdydd a'r Fro oedd 8% o gymharu â 5% ledled Cymru; roedd y gyfradd yn amrywio o 2% i 9%.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 16

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael

Mae nifer y staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal sydd ar gael i gleifion cofrestredig 65 oed a throsodd yn cyfateb i gyfartaledd Cymru.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 17

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael

Mae nifer yr uwch aelodau o staff o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal yn lleihau ond mae nifer y nyrsys staff cymunedol yn cynyddu[1]

| Proffil graddau cyflog | 2009 | 2013 | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| Nyrs Ardal - Band 7 | 36.3 | 25.0 | -31% |
| Nyrs Ardal - Band 6 | 10.0 | 10.0 | 0% |
| Nyrs staff cymunedol - Band 6 | 49.9 | 32.9 | -34% |
| Nyrs staff cymunedol - Band 5 | 82.3 | 121.4 | 48% |
| Gweithiwr cymorth gofal iechyd - Band 3 | 33.6 | 31.5 | -6% |
| Gweithiwr cymorth gofal iechyd - Band 2 | 5.12 | 5.6 | 9% |
| **BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | **217.2** | **226.4** | **4%** |

[1] Adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu ei gynigion ar gyfer cysoni timau ag ardaloedd penodol, a fyddai'n lleihau nifer y staff ar Fandiau 6 a 7 o fewn y gwasanaeth nyrsys ardal ymhellach. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod nifer y staff ar y graddau cyflog hyn wedi lleihau.


Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 18

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael

Mae cyfran y nyrsys staff cymunedol yn gymharol uchel yng Nghaerdydd a'r Fro o gymharu â byrddau iechyd eraill.





Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 19


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Yr adnoddau sydd ar gael


Adeg yr archwiliad, roedd amrywiadau sylweddol o ran cymysgedd y graddau ar draws timau o fewn ardaloedd a rhwng ardaloedd.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 20

## Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

**c. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol i ateb y galw ond mae angen gwella cydymffurfiaeth ag anghenion hyfforddiant statudol a gorfodol.**

- Caiff anghenion hyfforddiant a diffygion o ran sgiliau eu nodi bob blwyddyn.
- Mae'r rhan fwyaf o staff (88 y cant) wedi cael arfarniad perfformiad ac adolygiad datblygu o fewn y 12 mis diwethaf a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro'n rheolaidd ar lefel ardal ar ar lefel y Bwrdd.
  - Er mwyn helpu i wella cydymffurfiaeth, mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn symud tuag at ddull gweithredu lle y caiff amcanion tîm eu pennu a'u harfarnu ac y caiff anghenion datblygu unigol eu nodi ar sail un-i-un.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i sicrhau bod staff y gwasanaeth nyrsys ardal wedi'u hyfforddi'n briodol i weithio yn y gymuned:
  - Gan weithio gyda darparwyr addysg lleol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi helpu staff i gwblhau modiwl cymunedol sy'n gysylltiedig â chwrs gradd mewn ymarfer clinigol cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod dwy ran o dair o'r gweithlu nyrsys ardal wedi cwblhau'r modiwl dysgu hwn. O ganlyniad, mae gan y Bwrdd Iechyd y gyfran isaf (22 y cant) o nyrsys cofrestredig sy'n meddu ar y cymhwyster ymarferydd arbenigol mewn nyrsio ardal o gymharu â byrddau iechyd eraill.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 21

## Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

**c. Parhad**

- Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael iawn ac yn cyflwyno risgiau corfforaethol a gweithredol.
  - Mae atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau cymunedol yn un o flaenoriaethau Bwrdd Clinigol PCIC ond mae cydymffurfiaeth ag atal a rheoli heintiau ar lefel o 8% ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei system nyrsys cyswllt yn dilyn y gwaith diweddar i ailgysoni timau er mwyn sicrhau bod nyrs gyswllt yn cysylltu â'r tîm atal ac yn rheoli heintiau.
  - Roedd y rhesymau a nodwyd dros gydymffurfiaeth wael yn cynnwys mynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron i gwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn y gwaith yn ogystal â phroblemau gyda'r modiwlau e-ddysgu unwaith y bydd staff ar-lein. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno diwrnod hyfforddiant statudol a gorfodol undydd wedi'i hwyluso lle y gall staff ddefnyddio cyfrifiaduron yn y gwaith a lle mae cymorth ar gael os bydd problemau gyda'r systemau TG.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 22

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

**c. Parhad**

- Mae gan staff fynediad i amser gwarchodedig â thâl ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ond nododd rhai timau nad oeddent 'erioed' wedi cael mynediad.
- Yn nodweddiadol, o'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r archwiliad, mae staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.
  - Os nad yw'r sgiliau yn cael eu harfer, gallai hyn adlewyrchu natur anghenion gofal y cleifion sy'n rhan o'r llwyth achosion ar y pryd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn annog staff nyrsio i ymarfer goruchwyliaeth glinigol ond nid yw'n cael ei ymarfer yn ffurfiol. Yn lle hynny, o ganlyniad i gyflwyno sesiwn trosglwyddo dyddiol rhwng timau a sesiynau arsylwi uniongyrchol ar gyfer ymarfer clinigol, ceir cyfleoedd i rannu ymarfer clinigol a myfyrio arno, yn ogystal â chyfleoedd i drafod anghenion cleifion unigol:
  - Yn dilyn methiannau llywodraethu gan sefydliadau eraill sy'n rhan o'r GIG, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y cysyniad o 'arsylwadau gofal' er mwyn asesu ymarfer clinigol staff unigol sy'n gweithio yn y gymuned.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 23

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn wael iawn.


| Hyfforddiant statudol a gorfodol | Cyfran staff y gwasanaeth nyrsys ardal sy'n cydymffurfio â hyfforddiant |
|---|---|
| Dadebru | 50% |
| Symud a thrin | 50% |
| Diogelwch tân | 16% |
| Diogelwch iechyd a lles | 8% |
| Atal a rheoli haint | 8% |
| Cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol | 8% |
| Diogelu oedolion | 6% |
| Diogelu plant | 0.7% |
| Trais ac ymddygiad ymosodol | Ddim yn hysbys |
| Llywodraethu gwybodaeth | Ddim yn hysbys |

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 24

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Ar y cyfan, mae staff cofrestredig y gwasanaeth nyrsys ardal yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer; lle nad yw aelodau o staff yn defnyddio'r sgiliau hyn, gall adlewyrchu anghenion cleifion adeg yr archwiliad.




Yn ddelfrydol, byddai'r bar coch ar 100% pe byddai'r staff yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.


Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 25

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i ddarparu gwasanaethau

Nid yw pob gweithiwr cymorth gofal iechyd yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer ac eithrio gofalu am glwyfau, a all adlewyrchu anghenion cleifion adeg yr archwiliad.




Yn ddelfrydol, byddai'r bar coch ar 100% pe byddai'r staff yn defnyddio'r sgiliau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 26

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Nid yw'n glir p'un a gaiff staff eu defnyddio'n effeithiol gan nad oes canllawiau cenedlaethol ar lefelau staffio cymunedol nac adnoddau i fesur dibyniaeth cleifion.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 27

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

a. **Ceir amrywiad annisgwyl yn y ffordd y mae timau nyrsys ardal yn treulio eu hamser ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynyddu'r amser a gaiff ei dreulio gyda chleifion.**
   - Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynyddu'r amser a gaiff ei dreulio gyda chleifion ac mae cyfran yr amser a dreulir gan staff ar ofal cleifion uniongyrchol fymryn yn is na chyfartaledd Cymru:
     - Canfu'r archwiliad bod staff yn treulio 42% o'u hamser ar ofal cleifion uniongyrchol. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r llynedd.
     - Un rheswm dros gysoni timau â rhwydweithiau ardal yw cynyddu'r amser a gaiff ei dreulio gyda chleifion, y mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i'w gynyddu i 50%.
   - Mae cyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol yn nodweddiadol yn debyg i gyfartaledd Cymru.
   - Ceir gwahaniaethau yng nghyfran yr amser a dreulir ar ofal cleifion uniongyrchol ac yn ymgymryd â gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion rhwng timau.
   - Mae amser teithio mewn perthynas ag ymweliadau â chleifion yn cyfrif am lai nag un rhan o bump (18%) o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chleifion gydag amrywiadau bach yn yr amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chlaf.
     - Ledled Cymru, roedd yr amser teithio ar gyfer ymweliadau â chleifion yn cyfrif am 18% o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chleifion, gan amrywio o 17% i 22%.
     - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod amser teithio wedi lleihau ers y llynedd.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 28

## Defnydd effeithiol


**a. Parhad**

- Mae cyfran yr amser a dreulir gan staff gyda chleifion yn amrywio rhwng graddau ac o fewn graddau, er yr ymddengys fod sail resymegol glir dros yr amrywiad hwn.
  - Roedd yr amser ar ofal cleifion uniongyrchol yn lleihau wrth i lefel y graddau godi, ac roedd amser ar weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion yn cynyddu.
  - Mae gwahaniaethau mawr yn y ffordd y mae arweinwyr tîm a deiliaid llwyth achosion yn treulio eu hamser.
- Mae'r cymysgedd o ran graddau yn gyffredinol gyson drwy gydol yr wythnos.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 29

## Defnydd effeithiol

Mae gofal cleifion uniongyrchol yn cyfrif am 42% o amser staff o gymharu â 44% i Gymru.





Mae gofal cleifion uniongyrchol yn cynnwys cyswllt wyneb-yn-wyneb neu gyswllt dros y ffôn â chlaf; Mae gofal cleifion anuniongyrchol yn ymwneud â nodiadau cleifion, cyswllt ag asiantaethau eraill, teithio sy'n gysylltiedig ag ymweld â'r claf; Mae gofal nad yw'n gysylltiedig â'r claf yn cynnwys yr holl weithgarwch arall e.e. rheoli tîm, addysgu a dysgu, gwaith gweinyddol a rheolaeth broffesiynol a chlinigol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 30

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Mae rhai timau yn treulio cyfran uwch o'u hamser gyda'u cleifion tra bod eraill yn treulio mwy o amser ar weithgareddau gofal nad ydynt yn gysylltiedig â'r claf.





Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 31

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Ceir amrywiadau bach rhwng timau nyrsys ardal o ran yr amser teithio cyfartalog fesul cyswllt â chlaf.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 32

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Mae cyfran yr amser a dreulir gyda chleifion yn lleihau wrth i lefel y graddau godi.

| Bandiau Cyflog | Cyfran yr amser a dreulir ar: | | |
|---|---|---|---|
| | Gofal cleifion uniongyrchol | Gofal cleifion anuniongyrchol | Gofal nad yw'n gysylltiedig â chleifion |
| Bandiau 2 & 3 | 48% | 31% | 21% |
| Band 5 | 46% | 33% | 21% |
| Band 6 | 37% | 37% | 26% |
| Band 7 | 19% | 32% | 49% |
| **Caerdydd a'r Fro** | **42%** | **33%** | **25%** |


Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 33

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Yn ystod wythnos yr archwiliad, roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd roedd arweinwyr tîm a deiliaid llwyth achosion yn treulio eu hamser gyda chyfran yr amser a dreuliwyd ar ofal cleifion uniongyrchol yn amrywio o 1% i 70%.





Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 34

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Defnydd effeithiol

Mae'r cymysgedd o ran graddau staff y gwasanaeth nyrsys ardal a ddefnyddir drwy gydol yr wythnos yn gyffredinol gyson.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 35

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Cyfateb adnoddau i'r llwyth achosion

**b. Nid yw'r aelodau o staff wedi'u dosbarthu'n gyson ar draws llwythi achosion ac nid yw'r adnoddau o reidrwydd yn diwallu anghenion y llwyth achos.**


- Adeg yr archwiliad, roedd llwythi gwaith, wedi'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul nyrs ardal, yn amrywio'n ddeublyg rhwng timau nyrsys ardal. Nid yw'n glir p'un a yw'r amrywiad yn ymwneud â dibyniaeth cleifion ond gall newidiadau diweddar i strwythurau timau leihau'r amrywiad hwn.
- Cynhaliodd staff y gwasanaeth nyrsys ardal bron i 7,000 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad gyda rhywfaint o amrywiad rhwng timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin.
  - Ar gyfartaledd, cynhaliodd y timau 43 o gysylltiadau fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn ond roedd hyn yn amrywio o 34 fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn i 51 fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn a hyd cyfartalog pob cysylltiad oedd 21.9 munud fesul tîm gan amrywio o 18.9 i 28.3 munud fesul tîm.
  - Gall yr amrywiadau hyn adlewyrchu gwahaniaethau rhwng timau o ran dibyniaeth cleifion (e.e. anghenion gofal cymhleth y mae angen mwy o amser ar eu cyfer), ymyriadau gofal byr neu leoliad y gofal (e.e. clinigau lle y caiff mwy o gleifion eu gweld).
- Mae rhai aelodau o staff yn gweithio mwy na'r oriau a nodir yn eu contract.
  - Roedd bron i hanner (47%) staff y gwasanaeth nyrsys ardal yn gweithio mwy na'r oriau a nodwyd yn eu contract. Gweithiai staff, ac eithrio staff banc, rhwng ychydig funudau ac 16 awr y tu hwnt i'r oriau a nodwyd yn eu contract yn ystod yr archwiliad.
  - Yr oriau gormodol canolrif a weithiwyd oedd 2.5, sy'n cyfateb i 6.9 aelod ychwanegol o staff cyfwerth ag amser cyflawn.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 36

## Cyfateb adnoddau

Mae llwythi gwaith, wedi'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn, yn amrywio'n ddeublyg rhwng timau nyrsys ardal.




Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 37

## Rheoli llwyth achosion lleol

**c. Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff llwythi achosion eu rheoli'n effeithiol ac ymddengys eu bod yn gweithio'n dda.**

- Yn gyffredinol, ni chaiff llwythi achosion byth eu cau ond mae gweithdrefnau uwchgyfeirio clir ar waith er mwyn rheoli pwysau cynyddol ar gapasiti.
- Gallai nifer yr ymweliadau â chleifion mewn unrhyw ddiwrnod penodol fod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau yn gofalu am gleifion sydd wedi'u cofrestru â phractisau meddygon teulu y tu allan i ffiniau'r Bwrdd Iechyd ond mae'r gwasanaeth nyrsys ardal wedi gweithio gyda gwasanaethau cyfagos i gytuno ar bwy sy'n gyfrifol am ofalu am y cleifion hyn gyda'r risgiau gweddilliol yn cael eu cofnodi ar gofrestrau risg ardal.
- Mae trefniadau ar waith gan y Bwrdd Iechyd i alluogi timau nyrsys ardal i helpu practisau meddygon teulu i ddarparu gwasanaethau estynedig i gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi sy'n cael therapi gwrthgeulo.
- Nid oes adnodd dibyniaeth cleifion safonol yn cael ei ddefnyddio ac mae'r Bwrdd Iechyd yn aros i adnodd cenedlaethol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gael ei gyflwyno.
  - Fodd bynnag, gall nyrsys sy'n arwain ardaloedd penodol ddefnyddio system PARIS i fonitro'r amser a dreulir gyda chleifion a lle bo angen, symud staff er mwyn ymateb i bwysau llwyth gwaith ar draws y gwasanaeth.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 38

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli llwyth achosion lleol

**C. Parhad**

- Caiff achosion a gaiff eu rhyddhau o'r llwyth achosion eu monitro'n rheolaidd fel rhan o'r dangosfwrdd ardal ond mae nifer fach o gleifion yn parhau i fod yn rhan o'r llwyth achosion am gyfnod hir gyda rhai cleifion yn cael ymweliadau anfynych.
  - Mae nyrsys arweiniol yn monitro nifer y cleifion ar y llwyth achosion yn rheolaidd ac maent yn hyderus bod 95% o gleifion wedi cael eu gweld o fewn y chwe mis diwethaf. Canfu ein harchwiliad bod 98% o gleifion wedi cael eu gweld o fewn y chwe mis diwethaf.
- Mae'r gwasanaeth nyrsys ardal yn anelu at ddarparu gofal i gleifion sy'n gaeth i'w cartref ond mae'n anodd penderfynu faint o gleifion sy'n wirioneddol gaeth i'w cartref.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 39

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


## Rheoli llwyth achosion lleol


**Proffil llwyth achosion (i)**

Adeg ein harchwiliad, roedd 6,023 o gleifion 'gweithredol'[1] yn rhan o'r 17 o lwythi achosion, gan gynnwys tîm yr ystafell drin.

- Roedd pedair rhan o bump (81%) o gleifion yn 65 oed a throsodd; mae 37% yn 85 oed neu'n hŷn.
- Dim ond cyfran fach (8%) o gleifion oedd ag anghenion nyrsio y tu allan i oriau craidd.
- Roedd y rhan fwyaf (91%) o gleifion yn cael ymweliad un person yn eu cartref eu hunain.
- Roedd traean (32%) o gleifion wedi bod ar y llwyth achosion ers blwyddyn neu fwy; mewn byrddau iechyd eraill, roedd y ffigur hwn yn amrywio o 27% i 55%.
  - Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion hirdymor hyn yn cael triniaeth o fewn y categori triniaeth cynnal neu anymataliaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn rhoi trefniadau newydd ar waith i gleifion â phroblemau ymataliaeth parhaus neu y mae angen gofal cathetr arnynt er mwyn sicrhau bod y cleifion hyn yn cael gofal amserol pan fydd wedi'i drefnu hyd yn oed os na fydd cysylltiad aml â'r gwasanaeth.
- Roedd mwy na thri chwarter (77%) o gleifion wedi cael ymweliad o fewn y deufis diwethaf ond roedd mwy na blwyddyn ers ymweliad diwethaf cyfran fach iawn ohonynt (3%), sy'n bwrw amheuon o ran p'un a ddylai'r cleifion hyn fod yn rhan o'r llwyth achosion o hyd.
- Mae'r rhan fwyaf (87%) o gleifion yn cael gofal yn eu cartref eu hunain (gan gynnwys cartrefi gofal preswyl) gyda 4% o gleifion yn cael gofal mewn clinig neu ganolfan iechyd.
  - Canfu'r ymarfer dyddiaduron hefyd fod 5% o'r cysylltiadau â chleifion yn cael eu cynnal dros y ffôn.

[1] Mae'r rhain yn gleifion sydd wedi dod i gysylltiad uniongyrchol (wyneb-yn-wyneb) neu anuniongyrchol (e.e. dros y ffôn) gyda'r tîm nyrsys ardal yn ystod y chwe mis cyn yr adolygiad ac y bwriadwyd ymweld â hwy eto (h.y. nododd PARIS fod y cofnod gofal ar agor o hyd).

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 40

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Rheoli llwyth achosion lleol

**Proffil llwyth achosion (ii)**

- Nid yw'n glir faint o gleifion sy'n wirioneddol 'gaeth i'w cartref'.
  - At ddibenion yr archwiliad, diffiniwyd cleifion sy'n gaeth i'w cartref fel 'yr unigolion hynny y byddai eu cyflwr meddygol a/neu seicolegol yn gwaethygu pe byddent yn gadael amgylchedd eu cartref.
  - Ni chofnodwyd data o ran p'un a oedd cleifion yn gallu dod i weld nyrs y practis neu ddod i'r ystafell drin fel mater o drefn ar y cofnod gofal electronig adeg atgyfeirio.
  - Weithiau, nid oedd cleifion gartref pan fyddai'r tîm yn ymweld. Canfu'r ymarfer dyddiaduron fod y teithiau 'gwastraffus' hyn yn cyfrif am 5% o'r holl gysylltiadau â chleifion (gan amrywio o 2% i 10% ar draws y timau). Roedd llai na 0.5% o amser staff yn cael ei dreulio ar y teithiau gwastraffus hyn gan ddod i gyfanswm o ychydig dros 36 awr yn ystod yr archwiliad. Dylid ystyried p'un a ellid trin rhai o'r cleifion hyn yn briodol rywle arall, yn ogystal â darparu amser i gleifion eraill.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chleifion i roi cyhoeddusrwydd i'r angen i drin cleifion yn y lleoliad gofal mwyaf priodol, a all olygu eu trin mewn clinig neu feddygfa.
- Roedd llawer o gleifion yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd lluosog yn y gymuned.
  - Roedd bron i dair rhan o bump (58%) o gleifion ar lwyth achosion y nyrsys ardal yn cael gofal neu wedi cael gofal gan wasanaethau gofal iechyd cymunedol eraill, nyrsys arbenigol eraill neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Y gwasanaethau a gofnodwyd amlaf oedd: timau adnoddau cymunedol, podiatreg, gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn, ffisiotherapi a therapi galwedigaethol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 41

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Trefniadau gyfer monitro a gwella gwasanaethau

Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd a chyflwynir adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiad cleifion.

Adolygiad o Nyrsys Ardal — Sleid 42

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno

**Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau ar waith i fonitro performiad y gwasanaeth nyrsys ardal a chyflwyno adroddiadau ar y perfformiad hwnnw ond prin yw'r wybodaeth am brofiadau cleifion.**

- Caerdydd a'r Fro yw'r unig fwrdd iechyd sy'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ei wasanaeth nyrsys ardal gyda nifer o ddangosyddion perfformiad wedi'u cynnwys yn y dangosfwrdd ardal misol.
  - Caiff perfformiad ei adolygu gan dimau rheoli ardal a Bwrdd Clinigol PCIC.
- Mae'r system cofnodi gofal electronig yn darparu gwybodaeth i ategu gwaith cynllunio a monitro a chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n weithredol.
- Mae'r systemau ar gyfer cofnodi profiad neu ganlyniadau cleifion yn ad hoc ar hyn o bryd gan ddibynnu ar fonitro cwynion a digwyddiadau ond mae timau yn gweithio i ddatblygu ffordd fwy cyson o gofnodi adborth. Yn y dyfodol, bydd canfyddiadau archwiliad 'Hanfodion Gofal', a gynhelir yn fuan ar gyfer pob gwasanaeth nyrsys ardal ledled Cymru, yn darparu rhywfaint o wybodaeth am brofiad cleifion.

Adolygiad o Nyrsys Ardal	Sleid 43

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Nodi a rhannu arfer da

**b. Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu gwasanaethau nyrsys ardal ledled Cymru ac mae'n ailfywiogi'r fforwm proffesiynol gan fod y newidiadau diweddar i strwythurau timau wedi'u cwblhau bellach.**

- Mae uwch aelodau o staff nyrsio yn cyfrannu'n rheolaidd at fforymau Cymru gyfan sy'n ymwneud â'r gwasanaeth nyrsys ardal.
- Mae'r nyrsys arweiniol wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r fforwm proffesiynol yn dilyn y newidiadau diweddar i strwythurau timau er mwyn sicrhau bod systemau priodol ar waith i rannu materion proffesiynol ac arfer da.

Adolygiad o Nyrsys Ardal	Sleid 44

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Materion i ymdrin â hwy

**Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â'r canlynol:**

- manteisio ar y cyfle i ailwampio manyleb y gwasanaeth;
- defnyddio canfyddiadau'r archwiliad i sicrhau y caiff staff eu defnyddio mor effeithiol â phosibl ac fel llinell sylfaen y gellir monitro cynnydd tuag at gynyddu'r amser a dreulir gyda chleifion yn ei erbyn;
- cymharu llwythi gwaith rhwng timau gan fod y newidiadau i strwythurau timau wedi'u cwblhau bellach;
- defnyddio adnodd dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael i gynnal adolygiad gwrthrychol o b'un a yw niferoedd y gweithlu a'u sgiliau yn diwallu anghenion y llwyth achosion;
- mynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael â hyfforddiant statudol a gorfodol tra'n gwella'r systemau corfforaethol i goladu'r data hyn yn ganolog;
- cytuno ar systemau i gael adborth gan gleifion er mwyn llywio'r dangosfwrdd ardal; ac
- ystyried gwneud rhai o feysydd data PARIS yn feysydd gorfodol.

Adolygiad o Nyrsys Ardal

Sleid 45

# Atodiad 3

## Allwedd i'r timau a gwybodaeth am PARIS

| Ardal | Enwau'r timau | Dynodyddion tîm PARIS |
|---|---|---|
| Y Fro | Dwyrain y Fro | Penarth a DP1 |
| | Canol y Fro 2 | Y Barri 3 |
| | Canol y Fro 1 | Y Barri 2 |
| | Gorllewin y Fro | Gorllewin y Fro |
| De a Dwyrain | Dwyrain Caerdydd | Dwyrain 5 - Llanrhymni |
| | De ddwyrain 1 | De canol 3 - Butetown/Grangetown |
| | De ddwyrain 2 | De canol 2 - Y Sblot |
| | De canol | De Canol 5 - Y Rhath |
| | Glan yr Afon | Gorllewin 3 - Glan yr Afon |
| | Pentwyn | Dwyrain 1 - Pentwyn |
| Gorllewin Caerdydd | Trelái | Gorllewin 2 - Park View |
| | Radur | Gorllewin 5 - Radur |
| | Ystafell drin | Ystafell drin |
| Gogledd Caerdydd | Yr Eglwys Newydd (NT) | Gogledd 2 |
| | Yr Eglwys Newydd (JS) | Gogledd 1 |
| | Rhiwbeina | Gogledd 4 |
| | Llanisien | Gogledd 6 |
| Gwasanaeth nos | Y bwrdd iechyd cyfan | Gwasanaeth y tu allan i oriau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk